

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Constitutional and Legislative Affairs Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer
ymchwiliad Pwyllgor



Mai 2013

Annwyl gyfaill

Ymchwiliad i rôl Cymru ym mhroses benderfynu'r UE

1. Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i rôl Cymru ym mhroses benderfynu'r UE.
2. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:
 - Clywed tystiolaeth arbenigol ar sut y caiff buddiannau Cymru o ran y meysydd datganoledig eu cynrychioli ar hyn o bryd yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE;
 - Ystyried a yw'r trefniadau presennol yn galluogi Cymru i gael digon o lais yn yr UE;
 - Ystyried sut y caiff buddiannau Cymru eu hymgorffori yn yr adolygiad o'r cydbwysedd o ran cymhwysedd rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd, sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU; a
 - Gwneud argymhellion, os yn briodol, ynghylch sut y caiff buddiannau Cymru o ran y meysydd datganoledig eu hastyried yn yr UE.
3. Yn y pen draw, pwrpas yr ymchwiliad yw ystyried a gwneud argymhellion am sefyllfa gyfansoddiadol Cymru yn yr UE ac, yn arbennig, sut mae Cymru yn cymryd rhan yn y prosesau penderfynu ar lefel yr UE, yn

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8598
E-bost / Email: PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

hytrach na chael trafodaeth mwy cyffredinol am fanteision ac anfanteision aelodaeth y DU o'r UE.

4. Gellir gweld rhagor o wybodaeth gefndir yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn.
5. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i glywed eich barn ar y materion hyn.
6. Dylech anfon ymatebion, ar ffurf electronig neu gopi caled, i'r cyfeiriad isod, gan sicrhau eu bod yn cyrraedd erbyn 28 Mehefin 2013 fan bellaf.

Gareth Williams
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Tŷ Hywel
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

7. Mae canllawiau ar **gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig** ar gael yn Atodiad 2 i'r llythyr hwn.

8. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gareth Williams, y Clerc, ar 029 2089 8008 neu Ruth Hatton, y Dirprwy Glerc, ar 029 2089 8019.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read "David Melding AC". A small horizontal line with an arrow points from the end of the signature towards the printed name below it.

David Melding AC
Cadeirydd

Atodiad 1 Gwybodaeth gefndir

1. Ar hyn o bryd, mae'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio â Llywodraeth y DU mewn perthynas â pholisïau yr UE mewn meysydd datganoledig yn cael ei nodi mewn concordat yn y **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**¹ rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar y gwaith o gyd-drefnu materion polisi yr Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, mae'r concordat yn cwmpasu:

- sut mae gwybodaeth am faterion Ewropeaidd yn cael ei rhannu rhwng y llywodraethau;
- sut mae safbwyt polisi'r DU mewn perthynas â materion Ewropeaidd yn cael ei lunio;
- protocol yn ymwneud â phresenoldeb y Gweinidogion yng Nghyngor y Gweinidogion;
- sut mae rhwymedigaethau Ewropeaidd yn cael eu gweithredu gan Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig; a
- materion yn ymwneud ag achosion tor-ddyletswydd.

2. Cafodd y trefniadau presennol hyn eu herio gan y Prif Weinidog mewn Araith a wnaed ym mis Mawrth 2012 i'r gynhadledd 'Cymru a'r Undeb yn Newid' yng Nghaerdydd. Dywedodd:

It is worth also mentioning Europe...we hear a lot about the West Lothian Question...but there's a related question about Europe which I'm calling the Bridgend Question. Early in my ministerial career I spent many a long day and night, as Agriculture Minister, at the Council of Ministers. Now, there are 4 Agriculture Ministers in the UK and yet, at the Council of Ministers, the English Agriculture Minister casts a vote on behalf of all of us – whether the other 3 of us agree or not. Again, this seems increasingly unsatisfactory and unsustainable as time goes by...a revised way of dealing with EU business should also form part of our wider debate about the UK's future.²

3. Ailbwysleisiodd y safbwytiau hyn mewn Araith ddiweddarach i'r London School of Economics ar 8 Tachwedd 2012:

The debate about the role of regions in the European Union has gone off the boil somewhat in recent years, largely – I suspect - because it has seemed marginal to the economic crisis. But I want to put down a marker.

Devolution at home needs expression at EU level where devolved vital interests are at stake. We have our own species of the West Lothian Question: the Minister responsible for Agriculture in England suddenly morphs into a UK Minister for Agriculture at the Council of Ministers in Brussels, exercising an effective veto on the

¹ GOV.UK, Datganoli pwerau i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, [Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth](#), wedi'i ddiweddu ar 18 Chwefror 2013

² [Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AM, Y Prif Weinidog, Wales and the Future of the United Kingdom. Araith i gynhadledd 'Cymru a'r Undeb yn Newid', 30 Mawrth 2012](#)

views of his Scottish, Welsh and Northern Ireland counterparts. This is surely not sustainable. Pressure for independence is apparent in different parts of Europe – Scotland, Flanders, Catalonia and elsewhere – and we must find ways of including devolved governments more effectively in EU decision-making unless we wish to encourage the break-up of existing states into smaller units.³

4. Ochr yn ochr â sylwadau'r Prif Weinidog, ym mis Gorffennaf 2012, dechreuodd Llywodraeth y DU adolygiad ar raddfa fawr o'r ffordd y mae pwerau yn cael eu rhannu rhwng y DU a'r UE. Wrth iddo gyhoeddi'r adolygiad i Dŷ'r Cyffredin, dywedodd y Gwir Anrh. William Hague AS, yr Ysgrifennydd Tramor:

The review will be an audit of what the EU does and how it affects us in the United Kingdom. It will look at where competence lies, how the EU's competences, whether exclusive, shared or supporting, are used and what that means for our national interest. These are issues that affect all EU member states and could have a bearing on the future shape of the EU as a whole.

The review will be a valuable exercise for deepening understanding in Britain of the nature of our relationship with the European Union and how it has evolved over time, and will provide a constructive and serious British contribution to the public debate across Europe about how the EU can be reformed, modernised and improved. The review will be taken forward in a comprehensive and analytical way, jointly co-ordinated by the Foreign and Commonwealth Office and the Cabinet Office, and the Minister for Europe and I will answer to Parliament for it.⁴

5. Mae'r Papur Gorchymyn sy'n cyd-fynd â'r adolygiad,⁵ a osodwyd yn y Senedd ar yr un diwrnod, yn cyflwyno trosolwg o sut y byddai'r adolygiad yn cael ei gynnal. Mae'n nodi y bydd pob adran yn Llywodraeth y DU yn paratoi adroddiadau ar faterion Ewropeaidd ac y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod y pedwar semester canlynol:

- hydref 2012 – haf 2013;
- gwanwyn 2013 – gaeaf 2013;
- hydref 2012 – haf 2014; a
- gwanwyn 2014 – hydref 2014.

6. Ar ddechrau pob semester, bydd yr adrannau perthnasol yn lansio galwadau am dystiolaeth yn nodi cwmpas eu gwaith ac yn gofyn am fewnbwn oddi wrth ystod o bartion â diddordeb, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd sydd ag arbenigedd neu brofiad perthnasol. Ar ddiwedd pob semester, caiff yr adroddiadau eu cyhoeddi arlein.

³ Wales Online, [In full: First Minister's lecture to the LSE on the future of the Union](#), 8 Tachwedd 2012

⁴ Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, 12 Gorffennaf 2012, Col.468

⁵ [Review of the Balance of Competences between the United Kingdom and the European Union, Cm.8415, Gorffennaf 2012](#)

7. Mae'r Papur Gorchymyn yn nodi y bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn cael eu cynnwys yn y broses, ac mae dogfen ymgynghori DEFRA sy'n gysylltiedig â'r adolygiad yn nodi:

The review of the balance of competences is a UK Government initiative and this call for evidence is addressed to interested parties throughout the UK. The views of the devolved administrations will be an important factor; the issues should be examined from the point of view of the best interests of the UK as a whole, but the subject areas covered by the Animal Health, Welfare and Food Safety Review are devolved matters where the administrations in Scotland, Wales and Northern Ireland are responsible for the implementation of EU legislation.⁶

8. Cafwyd y cyfraniadau a ganlyn ar ôl datganiad yr Ysgrifennydd Tramor ar rôl y gweinyddiaethau datganoledig yn yr adolygiad:

Stewart Hosie (Dundee East) (SNP): The Joint Ministerial Committee's memorandum of understanding on EU policy states:

"Ministers and officials of the devolved administrations should be fully involved in discussions within the UK Government about the formulation of the UK's policy position on all issues which touch on matters which fall within the responsibility of the devolved administrations."

I want to ask the Foreign Secretary two questions. First, was there any discussion at all with the devolved Administrations on the formulation of this review policy? Secondly, does he really think it adequate that Cardiff, Belfast and Edinburgh should be invited to submit evidence to the review? Does that meet the terms of the MOU, which states that the devolved Administrations should be "fully involved" in discussions on policies in which we have competence? He mentioned agriculture, fisheries and the environment: many of those matters are devolved.

Mr Hague: They will of course be involved in determining policy. I stress again that this is a review to establish a proper understanding of the use of EU competences and the balance of those competences with the powers of the United Kingdom. It will then be a matter for the political parties or the devolved Administrations to draw their policy conclusions from it. They will be involved in the way that has been set out in the memorandum. The commitment to undertake this exercise is in the coalition agreement; it is part of what the coalition Government said they would do at the beginning. That agreement is not qualified by, and cannot be diluted by, consultations with the devolved Administrations; we are empowered to do this as a coalition. Of course the devolved Administrations will be involved in determining policy, and I look forward to the representations that they make as part of the review.⁷

9. Gwnaeth y Prif Weinidog y sylwadau a ganlyn mewn ymateb i'r adolygiad yn ei arraith i'r London School of Economics ar 8 Tachwedd 2012:

The UK Government has set in train a review of the existing balance of competences between the EU and the UK, which is scheduled for completion in late 2014. The

⁶ Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, [Call for evidence: Animal health, welfare and food safety review](#), Tachwedd 2012, paragraff 6
Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, 12 Gorffennaf 2012, Col. 474-475

outcome of that review will no doubt inform the UK's negotiating position for a new relationship within the European Union ...

So far as the balance of competences is concerned, we would oppose "repatriation" of responsibility for investment in economic and social development: the Structural Funds have served Wales well, and, frankly, we would not be confident of the same degree of support if funding for this became a Treasury responsibility.⁸

⁸ Wales Online, [*In full: First Minister's lecture to the LSE on the future of the Union*](#), 8 Tachwedd 2012

Atodiad 2

Canllawiau ar gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig

Wrth baratoi eich cyflwyniad, cadwch y canlynol mewn cof:

Y wybodaeth i'w chynnwys

Fel canllaw cyffredinol, dylai tystiolaeth ysgrifenedig gynnwys dogfen **hunangynhwysol**, ynghyd â llythyr eglurhaol. Dylid cyflwyno tystiolaeth sydd **mor gryno ag y bo modd** (ni ddylai'r memorandwm fod yn hirach na 6 tudalen A4 o hyd)

Dylai'r **llythyr eglurhaol** nodi:

- **enw a manylion cyswllt** yr unigolion neu'r sefydliad sy'n cyflwyno'r dystiolaeth;
- a yw'r dystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar ran sefydliad neu gan unigolyn;
- **unrhyw gais i roi tystiolaeth lafar**;
- unrhyw gais i'r Pwyllgor drin yr holl dystiolaeth ysgrifenedig, neu ran ohoni, yn **gyfrinachol**, gan nodi'r rhesymau dros y cais.

(Fel rheol, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael yn gyhoeddus, ac efallai y cânt eu gweld a'u trafod gan Aelodau'r Cynulliad mewn cyfarfodydd pwyllgor.

Os nad ydych am i'ch ymateb na'ch enw gael eu cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir wrth gyflwyno'r dystiolaeth, yn ogystal â'ch rhesymau dros hyn. Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol na fydd eich tystiolaeth o bosibl yn dylanwadu cymaint ar drafodaethau'r Pwyllgor. Dylech hefyd fod yn ymwybodol y gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r wybodaeth a roddir gennych yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth am gwmni, a hynny yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.)

Dylai'r **memorandwm** gynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- **Crynodeb** o'r prif bwyntiau a wnaed yn eich tystiolaeth
- **Cyflwyniad cryno** i'r unigolyn neu'r sefydliad sy'n cyflwyno'r dystiolaeth, gan nodi eu maes arbenigedd
- unrhyw **wybodaeth ffeithiol** sydd gennych i'w chynnig y gallai'r Pwyllgor ei defnyddio i ddod i gasgliadau, neu y gellir ei chyflwyno i dystion eraill i weld beth yw eu hymateb
- unrhyw **argymhellion** y mae'r cyflwynydd am i'r Llywodraeth, neu rywrai eraill, eu gweithredu ac y gallai'r Pwyllgor eu hystyried a'u cynnwys yn ei adroddiad i'r Cynulliad.
- Dylai eich ymateb roi sylw i'r materion y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried, yn arbennig y materion a nodir yn y gwahoddiad hwn i gyflwyno tystiolaeth.

(Dylech gymryd gofal rhag cynnwys sylwadau am **faterion sydd gerbron llys barn ar hyn o bryd**, neu faterion sydd ar fin mynd drwy lys barn. Os ydych yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd, dylech drafod â Chlerc y Pwyllgor sut y gallai hyn effeithio ar y dystiolaeth ysgrifenedig y gallwch ei chyflwyno.)

Sut i fformadu eich dystiolaeth

Rhai pwyntiau i'w nodi:

- **Dylid rhifo'r paragraffau**, i gynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo drafod y dystiolaeth yn ystod sesiynau llafar.
- Mae croeso ichi gynnwys **deunyddiau atodol** gyda'ch memorandwm—er enghraifft taflenni neu erthyglau o gyfnodolion - ond dylech sicrhau bod eich memorandwm yn hunangynhwysol.
- Os ydych am ddefnyddio lliw yn eich dystiolaeth, sicrhewch fod modd gwneud synnwyr o'r dystiolaeth ar ffurf du a gwn hefyd oherwydd gall aelodau o'r Pwyllgor benderfynu defnyddio fersiynau sydd wedi'u llungopi yn ystod y Pwyllgor.
- Os ydych yn cyflwyno dystiolaeth ar ffurf electronig, dylai eich memorandwm fod ar fformat **Microsoft Word, rich text neu PDF**.